Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Plas Hedd

Penrhyn Avenue
Bangor
LL57 1LT

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/10/2019

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cartref Gofal Plas Hedd wedi'i leoli ym Maesgeirchen ger dinas Bangor. Awdurdod Lleol Gwynedd sy'n berchen ar Blas Hedd. Aled Davies yw unigolyn cyfrifol y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu llety a gofal personol i hyd at 28 o bobl 18 oed a throsodd. Mae'r datganiad o ddiben yn nodi bod y gwasanaeth yn arbenigo mewn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, ac mae oedran cyfartalog yr unigolion sy'n byw yn y cartref yn fwy na 55 ac yn mynd hyd at 100 oed a throsodd. Mae gan y gwasanaeth reolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl sy'n byw yng Nghartref Gofal Plas Hedd yn cael gofal a chymorth mewn modd cynnes a chyfeillgar; mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn ymwybodol o'u hanghenion. Mae'r bobl yn cael budd o weithwyr gofal sy'n cyfathrebu'n dda â gweithwyr iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau y caiff anghenion iechyd y bobl eu diwallu a'u hyrwyddo. Mae'r cartref yn gyfforddus ac mae'n cynnwys cyfleusterau addas i hyrwyddo'r gofal a ddarperir ac mae'r bobl yn cael dewisiadau o ran eu bywydau bob dydd. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag ansawdd y wybodaeth yn y cynlluniau personol, yr amgylchedd a threfniadau llywodraethu cyffredinol y gwasanaeth.

2. Gwelliannau

Cafodd y cartref ei ailgofrestru yn ddiweddar o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar ei newydd wedd, a hwn oedd arolygiad cyntaf y cartref o dan y ddeddfwriaeth newydd.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth a'r meysydd lle nad yw'r darparwr cofrestredig yn bodloni gofynion cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynlluniau personol
- Polisi meddyginiaeth a rheolaeth
- Yr amgylchedd
- Cyfarfodydd preswylwyr
- Polisïau a gweithdrefnau
- Rheoli heintiau
- Storio cyfarpar a menig finyl
- Datganiad o ddiben

- Trefniadau llywodraethu

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

1. Llesiant

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn a gwneud dewisiadau. Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd parchus a gofalgar, gan gynnig dewisiadau i'r bobl am agweddau pwysig ar eu diwrnod, megis pa weithgaredd roeddent am ei wneud ac yr hyn roeddent am ei fwyta neu ei yfed. Gwnaethom siarad â phobl a nododd eu bod yn gwisgo dillad o'u dewis personol. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r holl bobl fel rhan o'r gwaith o gynllunio gofal ac adolygu prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfleu'r gofal maent am ei gael. Mae gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth rywfaint o reolaeth dros eu bywydau bob dydd, ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff y ddogfennaeth gofal ei hadolygu mewn ymgynghoriad â'r bobl er mwyn hyrwyddo mwy o ymdeimlad o ymreolaeth a llesiant.

Ar y cyfan, caiff llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu hybu. Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu da rhwng y cartref a'r gweithwyr iechyd proffesiynol lleol. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth wrthym ei fod yn fodlon iawn ar ansawdd y gofal a ddarperir i'r preswylwyr. Caiff y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y staff eu cofnodi yn y cofnodion dyddiol. Wrth arsylwi ar arferion dyddiol y gwasanaeth yn gyffredinol, gwelsom fod y bobl yn cael eu goruchwylio'n dda gan y staff a'u bod yn ymateb yn brydlon i'w hanghenion. Roedd adolygiad o arferion rheoli meddyginiaethau yn nodi bod y bobl yn cael eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r polisi meddyginiaeth ac mae angen cryfhau meysydd o reoli meddyginiaethau. Gwnaethom argymell bod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod cynlluniau personol pob unigolyn yn gyfredol ac yn cynnwys digon o fanylion am anghenion y bobl a'r ffordd orau o gyflawni eu canlyniadau personol. Down i'r casgliad bod y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn cael cymorth i gynnal eu llesiant meddyliol a chorfforol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff y ddogfennaeth gofal ei hadolygu'n amserol.

Ar y cyfan, mae'r bobl yn ddiogel ac yn byw mewn cartref pwrpasol, ond, ni allant fod yn gwbl hyderus bod y gwasanaeth yn nodi risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Gwnaethom gwblhau asesiad o'r amgylchedd a oedd yn ystyried i ba raddau mae'r cartref yn cefnogi'r bobl sy'n byw gyda dementia. Roedd yr asesiad o'r amgylchedd yn dangos bod gwelliannau y gellid eu gwneud mewn rhannau o'r cartref sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rhoddodd y rheolwr wybod i ni y byddai'r bobl sydd â diagnosis o ddementia yn symud i'r uned fwyaf newydd yn y gwasanaeth yn ystod y gaeaf hwn. Gwelsom yr uned newydd a gwelsom ei bod wedi'i chynllunio â nodweddion a fydd yn helpu'r bobl sydd â diagnosis o ddementia i ganfod eu ffordd o gwmpas yn well. Gwelsom fod yr amgylchedd a ddefnyddir yn y cartref yn ddiogel ar y cyfan. Mae'r fynedfa i'r cartref yn ddiogel a gofynnir i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael y cartref. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan y cartref le digonol ar gyfer storio cyfarpar a menig finyl, ac mae

angen gwella'r arferion rheoli heintiau. Gwelsom fod cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod y gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant diogelu a dangosodd y gweithwyr gofal eu bod yn deall eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu. Mae ardaloedd o'r amgylchedd a fyddai'n cael budd o gael eu hailaddurno, eu diweddaru a'u cynnal a'u cadw. Mae gan y darparwr gwasanaeth weithdrefnau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Fodd bynnag, mae angen gwella'r cartref er mwyn sicrhau y gall unigolion fod yn gwbl hyderus y cânt eu cefnogi i gyflawni ymdeimlad o lesiant yn yr amgylchedd y maent yn byw ynddo.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

2. Gofal a Chymorth

Ein canfyddiadau

Caiff y bobl gymorth i aros mor iach â phosibl. Dangosodd y dogfennau gofal yr ymgynghorir â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill yn ôl y gofyn. Gwnaethom siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd ymweld â'r cartref a nododd ei fod yn ymweld â'r cartref bob dydd. Siaradodd yn gadarnhaol iawn am y cartref a'r gofal a ddarperir gan nodi bod y gweithwyr gofal yn *'fantastic'*. Gwnaethom edrych ar gofnodion a'r gofal a ddarperir mewn perthynas â lleihau'r risg o friwiau pwyso, a gwelsom fod hyn yn foddhaol. Yn ystod yr arolygiad, ni welsom fod y preswylwyr yn cael trafferthion gyda gofal y geg nac iechyd y geg ac mae'r darparwr gwasanaeth wedi trefnu hyfforddiant ar ofal iechyd y geg i'r gweithwyr gofal. Gwnaethom gynnal archwiliad o'r meddyginiaethau a oedd yn cael eu cadw yn y cartref. Roedd y cofnodion mewn perthynas â rhoi meddyginiaethau yn dangos bod y bobl yn cael eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd, gan fod y cofnodion yn gyflawn a heb fylchau. Fodd bynnag, gellid cryfhau'r prosesau rheoli meddyginiaeth drwy sicrhau y caiff cofnodion a ysgrifennwyd â llaw eu llofnodi gan ddau weithiwr gofal, ac y cofnodir y rhesymau dros roi meddyginiaethau PRN a'u heffeithiau. Gwnaethom edrych ar y polisi a'r weithdrefn meddyginiaeth a gwelsom mai Rhagfyr 2012 oedd y dyddiad arnynt. Rydym yn argymell bod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn dilyn canllawiau arferion gorau mewn perthynas â storio a rhoi meddyginiaeth. Gwelsom y bobl yn chwarae gemau bwrdd a gwnaethant ymweld â'r gymuned leol a theithio yn y cerbyd a rennir rhwng tri o gartrefi gofal eraill Awdurdod Lleol Gwynedd. Rydym o'r farn bod cyfleoedd ar gael i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau maent yn eu mwynhau. Mae hyn yn helpu i hybu eu hiechyd seicolegol. Ar y cyfan, mae'r darparwr yn rhedeg gwasanaeth sy'n rhoi sylw i iechyd corfforol ac emosiynol y bobl drwy sicrhau eu bod yn cael cyngor meddygol a gwasanaethau eraill yn brydlon, ac mae'n cynnig cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r bobl yn cael budd o brosesau rhoi meddyginiaethau diogel. Fodd bynnag, rydym wedi nodi meysydd lle mae angen gwella'r prosesau rheoli meddyginiaeth.

Caiff y bobl ddewis, a chânt eu trin ag urddas a pharch. Drwy arsylwi, gwelsom fod y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd cynnes a chyfeillgar, ac yn eu trin â gofal. Gwelsom fod y bobl yn edrych yn daclus ac yn gwisgo dillad roeddent wedi eu dewis, neu a oedd yn parchu dewis unigol y person. Gwnaethom edrych ar sut y rheolir y gwaith golchi dillad a gwelsom fod systemau ar waith er mwyn sicrhau y caiff dillad y bobl eu golchi'n ofalus. Gwnaethom siarad â phreswylwyr a nododd nad oedd ganddynt unrhyw bryderon mewn perthynas â'r ffordd y caiff eu dillad eu golchi. Gwnaethom siarad â pherthynas ac nid oedd ganddo unrhyw bryderon diweddar. Gwnaethom drafod gofal wrth olchi dillad â'r rheolwr a nododd fod achlysuron wedi bod lle roedd dillad wedi cael eu golchi ar dymereddau anghywir a pholisi'r cartref oedd cael dillad newydd os oeddent yn cael eu difrodi ar ddamwain. Roedd y bobl yn cael dewisiadau ynglŷn â materion cyffredin, megis sut a ble roeddent am dreulio eu hamser a'r hyn roeddent am ei fwyta. Gwnaethom siarad â'r bobl

mewn perthynas ag ansawdd y bwyd. Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad roedd pob unigolyn y gwnaethom siarad ag ef yn hapus iawn â'i bryd, ac ar yr ail ddiwrnod cawsom gymysgedd o adborth cadarnhaol a negyddol ar y pryd a gafwyd i ginio. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y bobl yn cael mwy nag un dewis bob dydd. Hefyd, gwelsom y gofynnwyd i'r bobl am eu barn mewn perthynas â'r fwydlen yn ystod cyfarfodydd preswylwyr ar 21 Medi 2018 a 6 Chwefror 2019. Rydym yn argymell y dylid cynnal cyfarfodydd preswylwyr yn fwy rheolaidd fel bod y bobl yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod eu hoff brydau bwyd, y gellir eu cynnwys yng ngwaith cynllunio bwydlen y cartref. Gwelsom y gegin a gwelsom fod tymereddau'r oergell a'r rhewgell yn cael eu monitro. Gwnaethom edrych ar stoc bwyd y gwasanaeth a gwelsom ei fod o ansawdd da ac roedd y cynhwysion wedi'u prynu'n lleol ar y cyfan. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cael ei asesu ar 10 Rhagfyr 2018 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chafodd sgôr 'da iawn' (pump allan o bump). Dangosodd staff y gegin ddealltwriaeth o anghenion deietegol y bobl a sut roeddent yn hoffi i'w bwyd gael ei weini. Gwnaethom siarad â'r bobl a gadarnhaodd fod eu bwyd yn cael ei weini yn unol â'u dewis. Ar y cyfan, mae'r darparwr yn ceisio rhoi ymdeimlad o ymreolaeth i'r bobl, gan wella eu llesiant felly.

Ni all y bobl fod yn hyderus bob amser y bydd gan y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol yn nodi sut y darperir gofal iddynt. Gwelsom fod y cynlluniau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ond nad oedd yr adolygiadau hynny'n arwain bob amser at wneud y newidiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n aros yn gyfredol ac yn gywir. Gwelsom fod y cynlluniau personol a ysgrifennwyd yn y fformat diweddaraf wedi'u llunio i ganolbwyntio ar ganlyniadau gan fod adrannau wedi'u creu gyda chanlyniadau llesiant. Fodd bynnag, nid oedd meysydd, a all fod yn berthnasol i'r bobl, wedi'u cwblhau'n llawn ac nid oeddent yn dangos bod y bobl na'u perthnasau'n cyfrannu at y gwaith. Gwnaethom argymell i'r rheolwr y dylid ystyried sut y gellir gwella'r cofnodion hyn. Rydym yn argymell y dylai'r darparwr sicrhau bod cynlluniau personol y bobl yn cynnwys mwy o fanylion ac yn gyfredol er mwyn sicrhau bod gan y staff y wybodaeth angenrheidiol ac i gryfhau sut mae'r ddogfennaeth yn hwyluso'r gwaith o hybu llesiant y bobl.

Ar y cyfan, mae'r bobl yn derbyn gofal sy'n hybu eu diogelwch. Drwy arsylwi ar arferion y staff, gwelsom eu bod yn deall sut i gadw pobl yn ddiogel. Dangosodd y cofnodion hyfforddi fod aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu. Roedd cyfarpar yn cael ei ddefnyddio pan oedd angen i helpu'r bobl i symud o gwmpas. Mae'r agweddau hyn ar y ddarpariaeth gofal yn helpu i hybu ymdeimlad o lesiant i'r bobl gan eu bod yn ategu ymdeimlad o ddiogelwch. Gwelsom fod digon o gyfleusterau golchi dwylo a glanedyddion ar gael yn y cartref. Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o bolisi cwympiadau a hyfywedd meinwe (gofal croen) y gwasanaeth, cawsom e-bost gan y rheolwr ar ôl yr ymweliadau arolygu yn esbonio nad oes gan y gwasanaeth bolisïau mewn perthynas â'r meysydd hyn. Ni welsom unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder mewn perthynas â rheoli cwympiadau neu ofal croen yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid datblygu polisi er mwyn rhoi canllawiau llawn gwybodaeth i'r gweithwyr gofal. Gwnaethom ofyn am gopi o bolisi maeth a

hydradu'r cartref a chawsom wybod bod polisi wrthi'n cael ei ddatblygu. Ar y cyfan, mae gan y darparwr drefniadau ar waith sy'n gwella'r broses o ddiogelu'r bobl.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

3. Yr Amgylchedd

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn cartref cysurus ond ni allant fod yn gwbl hyderus bod y darparwr gwasanaeth yn goruchwylio'r amgylchedd yn foddhaol. Gwnaethom gerdded o gwmpas yr adeilad gan ystyried yr ardaloedd o'r cartref a gaiff eu defnyddio gan y bobl sy'n byw yno. Mae'r cartref yn ddiogel rhag mynediad diawdurdod, roedd y coridorau'n llydan ac roedd yn hawdd symud o gwmpas y cartref a gwnaethom nodi bod y bobl yn cerdded yn rhydd o gwmpas y cartref. Gwelsom fod ardaloedd â thema yn y coridorau, gan gynnwys Clwb Pêl-droed Bangor, cornel gwnïo a bwrdd pŵl. Gwelsom fod gwelyau blodau wedi'u codi yn yr ardd, a gwelsom fod y bobl yn cael y cyfle i dyfu llysiau. Roedd y cartref gofal yn lân ac yn daclus. Roedd ystafelloedd unigol yn amrywiol o ran y ffordd roeddent wedi'u personoli yn unol â dewisiadau unigol o ran decor a dodrefn. Roedd yr ardaloedd bwyta yn cynnwys ceginau bach a oedd ar gael i'r bobl eu defnyddio os oeddent yn dymuno. Roedd y lolfeydd yn cael eu goruchwylio'n dda gan y staff gan roi ymdeimlad o ddiogelwch i'r bobl. Gwnaethom dynnu sylw at un ystafell yn y cartref yr oedd angen rhoi sylw iddi ar unwaith. Roedd y llawr yn yr ystafell wedi'i staenio ac roedd arogl amhleserus yno. Cawsom gadarnhad gan y rheolwr bod y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â hyn ers yr arolygiad. Mae ardaloedd eraill o'r amgylchedd sydd angen eu gwella, megis y canlynol:

- Roedd angen ailbeintio wal ystafell preswylydd a wal coridor ger y brif fynedfa,
- roedd dodrefn mewn llawer o ystafelloedd gwely wedi treulio,
- roedd seddi, byrddau bwyd a chadeiriau mewn ardaloedd cymunedol wedi treulio.

Ni all y bobl fod yn gwbl hyderus bod y gwasanaeth yn nodi risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Gwelsom fod drysau dwy ystafell olchi, a ddylai fod dan glo gan ddefnyddio cod allwedd, wedi'u dal ar agor, sy'n peri risg o ledaenu heintiau yn y gwasanaeth. Yn y ddwy ystafell olchi heb eu cloi ac mewn ystafell ymolchi gymunedol roedd bocs o fenig finyl untro. Gan y gall y rhain beri risg o dagu i rai pobl sy'n agored i niwed, dylai menig finyl gael eu storio'n ddiogel lle mai dim ond y staff sy'n gallu cael gafael arnynt. Gwelsom fod ystafell ymolchi gymunedol yn cael ei defnyddio i storio comôd a matres. Gallai storio cyfarpar mewn ystafelloedd ymolchi beri risg i'r bobl a'r gweithwyr gofal o ran defnyddio'r ardaloedd yn ddiogel. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a gadarnhaodd fod cyfleusterau storio yn broblem yn y cartref. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd lle mae angen gwella'r gwaith o nodi'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl.

4. Arwain a Rheoli

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae hon yn ddogfen bwysig sy'n amlinellu'r athroniaeth gofal, y trefniadau ar gyfer darparu gofal a'r cyfleusterau sydd ar gael. Gwnaethom edrych ar y ddogfen a gawsom pan wnaeth y gwasanaeth gofrestru o dan RISCA a gwelsom fod y ddogfen yn galluogi'r bobl i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y gwasanaeth. Fodd bynnag, gan nad ydym wedi cael copi diwygiedig o'r ddogfen hon, rydym yn ansicr a yw'r argymhellion i wella'r ddogfen, a wnaed pan gofrestrwyd y gwasanaeth, wedi cael eu rhoi ar waith. Cawsom hen ddatganiad o ddiben gan y rheolwr, a gafodd ei adolygu ar 24 Hydref 2019, ac nid yw'n bodloni gofynion rheoliadol RISCA gan fod y ddogfen wedi'i hysgrifennu yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000. Mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y rheolwr yn ymwybodol o ddatganiad o ddiben mwyaf diweddar y gwasanaeth a sicrhau bod y ddogfen ar gael yn hawdd i'r preswylwyr presennol a darpar breswylwyr. Rydym o'r farn bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. Fodd bynnag, ni all y bobl fod yn hyderus eu bod yn cael y fersiwn fwyaf cyfredol o'r ddogfen.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn dda a bod y bobl yn hapus ac yn cael eu cefnogi'n dda, ond mae angen cryfhau trefniadau llywodraethu'r gwasanaeth i hyrwyddo a chefnogi hyn. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth er mwyn cwblhau gwerthusiad ffurfiol o'r gwasanaeth bob tri mis, ond nid oedd hyn wedi digwydd ers 8 Mawrth 2019 ar adeg ymweliad arolygu AGC. Dywedodd y rheolwr wrthym fod ymweliad ffurfiol â'r gwasanaeth wedi'i drefnu ar gyfer 31 Gorffennaf 2019, a gafodd ei ganslo oherwydd amgylchiadau annisgwyl. Cadarnhawyd hyn gan yr unigolyn cyfrifol. Mae'r rheolwr wedi dweud wrthym y cwblhawyd ymweliad ffurfiol â'r gwasanaeth ar 4 Tachwedd 2019. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym am strwythur gweithredol y gwasanaeth a nododd fod yna reolwr ardal sydd â chyfrifoldeb penodol am fonitro a chefnogi pob cartref gofal yn ardal gogledd sir Gwynedd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cael sgwrs anffurfiol wythnosol â'r rheolwr ardal a chyfarfodydd ffurfiol unwaith y mis. Mae gofyniad rheoliadol i'r unigolyn cyfrifol gwblhau ymweliadau ffurfiol â'r cartref gofal o leiaf bob tri mis. Mae'r ymweliadau hyn yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i fonitro gweithrediad y cartref, ac yn rhoi cyfle i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno fynegi barn am weithrediad y gwasanaeth. Gwelsom fod y ddogfen sicrhau ansawdd wedi'i chwblhau gan y rheolwr ym mis Mai 2019; mae angen gwella'r broses sicrhau ansawdd. Mae angen i'r darparwr gwasanaeth wneud trefniadau, o leiaf bob chwe mis, i adolygu safonau'r gofal ac ystyried barn y staff, y preswylwyr a'u cynrychiolwyr er mwyn datblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Mae angen i'r trefniadau llywodraethu presennol gael eu cwblhau'n fwy aml er mwyn gwneud yn siŵr bod ansawdd yn cael ei sicrhau yn barhaus ac yn effeithiol.

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn addas i weithio yn eu rolau fel gweithwyr gofal. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom eu bod wedi'u trefnu'n dda, ac roedd

yn hawdd dod o hyd i wybodaeth angenrheidiol. Roedd dau eirda ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff ac roedd hefyd dystiolaeth bod gwiriad wedi cael ei gynnal gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd niferoedd digonol o staff i ddiwallu anghenion y bobl. Roedd y lolfeydd yn cael eu goruchwylio'n dda ac roedd y gofal yn cael ei ddarparu mewn modd hamddenol a digynnwrf. Cafodd hyn ei gadarnhau drwy edrych ar y rota staff, a oedd yn dangos bod niferoedd digonol o staff yn gweithio ar bob sifft. Cawsom bryder a oedd yn awgrymu bod prinder staff yn y gwasanaeth gyda llawer o aelodau o'r staff yn sâl. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o brinder staff ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, cawsom ohebiaeth ym mis Medi 2019 gan y darparwr i gadarnhau bod y rheolwr a'r dirprwy reolwr yn absennol oherwydd salwch gyda dau reolwr o ddau gartref gofal yng Ngwynedd yn helpu'r gwasanaeth yn ystod absenoldeb y rheolwr a'r dirprwy reolwr. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod mewn cysylltiad â'r ddau reolwr, a oedd yn golygu ei fod yn ymwybodol o unrhyw faterion a oedd yn codi. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr bellach wedi dychwelyd. Down i'r casgliad bod niferoedd digonol o staff profiadol sydd â chymwysterau addas ar gael i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw ym Mhlas Hedd.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gynhaliwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dyma argymhellion ar gyfer gwelliannau er mwyn hybu canlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth:

- Cynlluniau personol: Dylid sicrhau bod cynlluniau gofal personol pob unigolyn yn fanwl, yn cael eu diweddaru pan fydd newidiadau'n codi ac yn dangos bod y bobl a/neu eu perthnasau'n cyfrannu at y gwaith.
- Polisi meddyginiaeth a rheolaeth: Dylid sicrhau y caiff cofnodion a ysgrifennwyd â llaw eu llofnodi gan ddau weithiwr gofal, ac y cofnodir y rhesymau dros roi meddyginiaethau PRN a'u heffeithiau. Mae angen adolygu'r polisi meddyginiaeth o leiaf bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn dilyn canllawiau arferion gorau mewn perthynas â storio a rhoi meddyginiaeth.
- Yr amgylchedd: Dylai'r darparwr gwasanaeth ddatblygu cynllun cynnal a chadw gan fod angen cynnal a chadw a diweddaru dodrefn a rhai ardaloedd o'r amgylchedd.
- Cyfarfodydd preswylwyr: Dylid cynnal cyfarfodydd preswylwyr yn amlach fel bod y preswylwyr yn gallu trafod eu hoff brydau bwyd yn rheolaidd, a rhannu eu barn ar agweddau eraill o fewn y cartref gofal yn amlach hefyd.
- Polisïau a gweithdrefnau: Byddai'r gwasanaeth yn cael budd o greu polisi cwympiadau a hyfywedd meinwe (gofal croen) er mwyn rhoi gwybodaeth a chanllawiau i'r gweithwyr gofal.
- Rheoli heintiau a menig finyl: Dylid sicrhau bod ystafelloedd golchi dillad yn ddiogel ac na all y preswylwyr gael gafael ar fenig finyl.
- Storio cyfarpar: Dylid adolygu'r ffordd y caiff cyfarpar ei storio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw annibendod yn yr ystafelloedd ymolchi.
- Datganiad o ddiben: Dylai'r rheolwr fod yn ymwybodol o'r fersiwn ddiweddaraf o'r datganiad o ddiben a sicrhau ei bod ar gael i'r preswylwyr presennol, darpar breswylwyr a'u teuluoedd.
- Trefniadau llywodraethu: Dylai'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth o leiaf unwaith bob tri mis, gan sicrhau bod systemau ar waith i gwblhau adolygiadau o ansawdd y gofal bob chwe mis yn unol â'r gofynion rheoliadol.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers iddo gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA) 2016. Cynhaliwyd arolygiad llawn mewn ymateb i bryder dienw a ddaeth i law mewn perthynas â gofal a chymorth, staffio, gofal wrth olchi dillad a'r amgylchedd; cafodd pob maes ei ystyried fel rhan o'r arolygiad a chânt eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Gwnaethom gynnal ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth ar 21/10/2019 rhwng 08:40 a 18:00 ac ar 22/10/2019 rhwng 09:35 a 17:13

Gwnaethom ddefnyddio'r ffynonellau canlynol o wybodaeth i lunio ein hadroddiad:

- Datganiad o ddiben;
- adroddiad ar ansawdd y gofal;
- sampl o bedair bwydlen;
- arsylwadau ar arferion dyddiol ac arferion gofal;
- trafodaethau â'r rheolwr, y dirprwy reolwr, naw unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chwe gweithiwr gofal;
- gwnaethom edrych ar gynlluniau personol a'r ddogfennaeth gysylltiedig mewn perthynas â phum unigolyn sy'n byw yn y cartref;
- ffeiliau cyflogaeth ar gyfer tri aelod o'r staff;
- cofnod o fatrics hyfforddiant y staff;
- copïau o rotas wythnosol staff y cartref gofal ar gyfer 22 Medi 2019 tan 19 Hydref 2019;
- cofnodion o gyfarfodydd y preswylwyr: 21 Medi 2018, 6 Chwefror 2019 a 30 Mai 2019;
- cofnod ymweliad yr unigolyn cyfrifol dyddiedig 08 Mawrth 2019;
- taith o amgylch y cartref gan gynnwys yr ardaloedd cymunedol a rhai o'r ystafelloedd gwely;
- gwnaethom edrych ar y polisïau ynghylch meddyginiaethau
- gwnaethom anfon pum holiadur at breswylwyr, pum holiadur at berthnasau/cynrychiolwyr, pum holiadur at aelodau o'r staff a phum holiadur at weithwyr proffesiynol. Ni wnaethom dderbyn unrhyw holiaduron wedi'u cwblhau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	**Gwasanaeth Cartref Gofal**
Darparwr y Gwasanaeth	**Cyngor Gwynedd**
Unigolyn Cyfrifol	**Aled Davies**
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	**28**
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	**03/07/2018**
Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn	**21/10/2019 a 22/10/2019**
laith weithredol y gwasanaeth	**Y ddwy**
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	**Ydy**
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Dyddiad Cyhoeddi 24/02/2020

Adroddiad